

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Cambian Healthcare Limited

Tŷ Sant Teilo

Dyddiad yr arolygiad:

31 Mai – 2 Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi:

4 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	27
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	28
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Dŷ Sant Teilo fin nos 31 Mai ac yn ystod dyddiau 1 a 2 Mehefin 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Tŷ Sant Teilo

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig) ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn darparu gofal adsefydlu diogel ac effeithiol mewn amgylchedd a gynhelir yn dda. Fodd bynnag, roedd gan y cleifion a'r staff bryderon ynghylch y nifer o ddigwyddiadau a gafwyd yn y misoedd yn arwain at ein harolygiad.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yn darparu gofal adsefydlu iechyd meddwl mewn amgylchedd priodol a oedd wedi ei gynnal yn dda.
- Roedd staff ward ac uwch-reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion gyda pharch.
- Roedd trefniadau llywodraethu cryf ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Recriwtio staff i swyddi gwag nyrs gofrestrdig a Phennaeth Gofal.
- Gweithdrefn atal a rheoli heintiau ar gyfer y gegin therapi galwedigaethol.
- Trefniadau cymorth ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Nodwyd diffyg cydymffurfiaid â rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran swyddi gwag yn Natganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir y bydd y darparwr cofrestredig yn cymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cambian Healthcare Limited wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Nhŷ Sant Teilo, Goshen Street, Rhymni, Gwent, NP22 5NF.

Mae gan y gwasanaeth 23 o welyau cofrestredig ac mae'n darparu gwasanaeth adsefydlu wedi ei gloi ar gyfer menywod. Roedd 20 o gleifion ar adeg yr arolygiad.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 23 Mawrth 2007.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys Rheolwr yr Ysbyty, Pennaeth Gofal dros dro a chlinigydd cyfrifol. Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys seicolegydd a chynorthwydd seicoleg, dau therapydd galwedigaethol a dau gydgyssylltydd gweithgareddau, tîm o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd tîm sefydledig o weithwyr cadw tŷ, staff cegin a gweithiwr cynnal a chadw.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn trin cleifion gyda pharch wrth ddarparu gofal adsefydlu unigoledd i gleifion. Gwelsom fod y staff yn sicrhau hawliau'r cleifion ac yn cynorthwyo'r cleifion i fod mor annibynnol â phosibl.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn Nhŷ Sant Teilo. Cynhaliwyd clinigau iechyd "menyw iach" wythnosol yn yr ysbyty bob penwythnos. Roedd gwybodaeth am fwyta'n iach wedi ei harddangos yn yr ystafell fwyta, ac roedd opsiynau prydau bwyd a byrbrydau iach ar gael i'r cleifion.

Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at raglen rhoi'r gorau i ysmegu drwy'r gwasanaethau meddyg teulu lleol; dywedwyd bod y nifer a oedd yn manteisio ar hon yn isel. Rydym yn teimlo y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu ragweithiol yn yr ysbyty, a allai wella cyfranogiad y cleifion.

Roedd gan yr ysbyty ddau therapydd galwedigaethol rhan-amser a dau gydgyfylltydd gweithgareddau. Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol ar gael i'r cleifion yn yr ysbyty, neu yn y gymuned ar gyfer y cleifion hynny a oedd â chaniatâd i adael yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys campfa'r ysbyty, lle'r oedd amrywiaeth dda o offer ymarfer corff cardio, fel peiriant rhedeg a beic ymarfer.

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau yn yr ysbyty i ddarparu gweithgareddau i'r cleifion, fel y salon gwallt a harddwch, lle ceir gwasanaethau trin ewinedd hefyd, yr ystafell gyfrifiadur lle ceir mynediad at y rhyngwyd, y gegin therapi galwedigaethol ac ystafelloedd gweithgareddau eraill. Roedd gan y cleifion fynediad agored at ardd fawr a oedd wedi ei chynnal a'i chadw'n dda. Roedd ystafell ymwelwyr nesaf at y dderbynfa a oedd hefyd yn addas ar gyfer ymweliadau gan blant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu ragweithiol yn yr ysbyty.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y staff ward a'r uwch-reolwyr yn yr ysbyty yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch. Roedd y staff i ni siarad â nhw yn frwdfrydig am sut yr oeddent yn cynorthwyo ac yn gofalu am y cleifion. Dangosodd y staff wybodaeth fanwl am gleifion unigol, eu hanesion a thaith y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad gyda'r cleifion mewn lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn dangos parch tuag at y cleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol mewn ymdrech i atal ymddygiad cleifion rhag gwaethygu. Pan oedd y cleifion yn mynd at yr aelodau staff, roeddent yn cael eu hwynebu gan agweddau gofalgar moesgar ac ymatebol.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn cynorthwyo'r cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely en-suite ei hun gyda thoiled, sinc a chawod. Roedd ystafelloedd ymolchi hefyd ar gael y gallai cleifion eu defnyddio pe baent yn dymuno cael bath.

Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, ac roedd y staff yn gallu agor y cloeon os oedd angen. Gwelwyd nifer o ystafelloedd gwely cleifion ac roedd yn amlwg bod cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a bod ganddynt ddigon o le storio ar gyfer eu heiddo.

Roedd paneli golwg yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi cleifion heb agor y drws a tharfu ar y claf o bosibl. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli golwg ar gau ac yn cael eu hagor i gynnal arsylwadau ac yna'n cael eu cau eto. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd yr ysbyty wedi ei addurno a'i ddodrefnu i safon uchel; roedd lluniau deniadol drwy'r ysbyty a oedd hefyd yn cynnwys tirnodau lleol.

Dywedodd y cleifion a siaradodd â ni nad oedd ganddynt unrhyw faterion cyffredinol o bryder ynghylch eu preifatrwydd neu eu hurddas. Fodd bynnag, pan fydd cleifion yn cael eu hebrwng gan y staff i'r gymuned, fe'n hysbyswyd

bod y staff yn gwisgo eu crysau polo cwmni sy'n dangos logo ac is-bennawd y cwmni. Er y gall y staff wisgo dillad dros ben y crysau polo, efallai na fydd hyn bob amser yn digwydd mewn tywydd cynhesach. Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r arfer hwn ac ystyried sut y gall y staff hebrwng cleifion heb fod modd eu hadnabod fel staff ysbyty er mwyn cynnal urddas y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu sut y gall y staff hebrwng cleifion heb allu eu hadnabod fel staff ysbyty er mwyn cynnal urddas y cleifion.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd y wybodaeth yn y dderbynfa ac i ymwelwyr yn cynnwys gwybodaeth am yr ysbyty, am y Ddeddf Iechyd Meddwl ac am wasanaethau eirioli, yn ogystal ag amrywiaeth o daflenni perthnasol eraill.

Roedd amrywiaeth dda hefyd o wybodaeth wedi ei harddangos drwy'r holl fannau i gleifion yn yr ysbyty. Roedd y Canllaw i Gleifion wedi ei gynllunio'n dda ac yn hawdd ei ddarllen. Roedd yn galluogi pobl i ennyn dealltwriaeth dda o'u hawliau a'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan y gwasanaeth.

Roedd tystysgrifau cofrestru a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi eu harddangos hefyd. Roedd gwybodaeth am y broses gwynion a sut i wneud cwyn wedi ei harddangos hefyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda'r cleifion. Cymerodd y staff amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn briodol ar gyfer y claf unigol. Pan oedd cleifion yn dal i fod yn aneglur neu fod yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyfathrebu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio egluro'r hyn yr oeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Roedd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys cleifion a staff ac roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal unigol a chyfarfodydd cymunedol grŵp.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolaeth. Gyda chytundeb y cleifion, pryd bynnag yr oedd yn bosibl, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Roedd cyfarfodydd cynllunio beunyddiol bob bore i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty a'r gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol, ac ati.

Roedd cyfarfod cymunedol wythnosol lle'r oedd cyfle i'r cleifion gynnig adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon. Roedd yr ysbyty wedi cychwyn fforwm cleifion misol a fynychwyd gan gynrychiolydd o wasanaeth eiriolaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pwyslais eglur ar adsefydlu gyda gofal cleifion unigoliedig a gefnogwyd gan gymryd risgiau cadarnhaol wedi eu rheoli, o ran arferion ward a chynllunio gofal.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol unigol, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd y caniatâd gofynnol ar waith).

Roedd cyfraddau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn cael eu monitro a'u harchwilio. Pan oedd cleifion yn gwrthod, gwelsom y staff yn cynnig opsiynau amgen, a chofnodwyd hyn yng nghofnod y claf. Roedd archwiliad wythnosol o gyfranogiad mewn gweithgareddau, a fyddai'n cyfrannu at gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Roedd y gweithgareddau'n amrywiol ac yn canolbwyntio ar wellhad, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd gan y tîm therapi galwedigaethol lyfrgell o weithgareddau y gellid eu defnyddio "oddi ar y silff".

Roedd y tîm seicoleg, a recriwtiwyd i'r ysbyty yn ddiweddar, yn sefydlu nifer o therapïau a sesiynau er lles y cleifion a'r staff.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion

Roedd cyfle i'r cleifion, perthnasau a gofawyr gynnig adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd cymunedol neu adborth ffurfiol drwy'r broses gwynion.

Roedd yn braf nodi bod y darparwr cofrestredig wedi derbyn adborth cadarnhaol gan rai cleifion a pherthnasau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n ddarparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Fodd bynnag, cododd cleifion a staff bryderon am nifer yr achosion o ymddygiad ymosodol gan gleifion a oedd wedi digwydd yn yr ysbyty yn y misoedd yn arwain at ein harolygiad.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith yn yr ysbyty i reoli risg a diogelwch, i reoli heintiau ac i reoli meddyginiaeth. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd yr ysbyty wedi ei gynnal a'i gadw i safon uchel, er bod agweddau o fân drwsio'n ofynnol ar adeg ein harolygiad. Roedd prosesau priodol ar waith hefyd i gynnal lefel uchel o lendid; fodd bynnag, mae angen gwelliannau i gynhالياeth y gegin therapi galwedigaethol.

Roedd y dogfennau statudol yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi eu cwblhau i safon uchel. Fodd bynnag, mae meysydd o welliant yn ofynnol o ran cwblhau dogfennau clinigol, a fyddai'n helpu'r staff i ddangos yn rhwydd y gofal y maent yn ei ddarparu a'r rhesymau sy'n sail i'w penderfyniadau.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Dŷ Sant Teilo brosesau ar waith i reoli risg a chynnal iechyd a diogelwch. Roedd yr ysbyty yn ddarparu gofal cleifion unigol a gefnogwyd gan gymryd risgiau cadarnhaol wedi'u rheoli, o ran arferion ward a chynllunio gofal.

Roedd mynedfa wastad i mewn i'r ysbyty o'r stryd a maes parcio'r ysbyty. Roedd y mannau i gleifion ar lawr daear a llawr cyntaf yr ysbyty; roedd lifft ar gael i gynorthwyo pobl ag anawsterau symud.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth yn ôl y gofyn. Roedd pwyntiau galw nyrsys o gwmpas y ward ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion fel y gallai'r cleifion alw am gymorth os oes angen.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiad risg pwyntiau rhwymynnau cyfredol ar waith ar gyfer yr ysbyty. Roedd hwn yn nodi pwyntiau rhwymynnau posibl a pha gamau a gymerwyd i gael gwared ar y rhain neu eu rheoli.

Roedd gan yr ysbyty Gynllun Parhad Busnes ar waith a oedd yn cynnwys pethau fel tywydd garw, methiannau cyfleustodau ac argyfwng clefyd heintus.

Roedd yr ysbyty wedi ei ddodrefnu a'i addurno i safon dda; roedd yn olau, yn fodern ac yn groesawgar. Roedd yr ysbyty wedi ei gynnal a'i gadw'n dda drwyddi draw ar y cyfan; fodd bynnag, roedd rhai mannau o ddifrod i ddau banel ffenestr drws a chornel wal yn yr ystafell fwyta yn dilyn digwyddiadau yn y diwrnodau cyn ein harolygiad. Fe'n sicrhawyd y byddai'r mannau hyn yn cael sylw fel blaenoriaeth. Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi gweithiwr cynnal a chadw sy'n benodol ar gyfer Tŷ Sant Teilo, ac mae'n gwneud gwaith cynnal a chadw neu'n cysylltu â thîm cynnal a chadw ardal y darparwr cofrestredig.

Roedd lefelau staffio yn ystod ein hymweliad yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion presennol ac ni chodwyd unrhyw bryderon gan y staff na'r cleifion am lefelau staffio annigonol. Fodd bynnag, cododd nifer o staff bryderon fod aciwtedd y cleifion yn yr ysbyty wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi arwain at fwy o ddigwyddiadau o ymddygiad ymosodol. Cododd rhai cleifion eu pryderon am ddigwyddiadau diweddar yn yr ysbyty a oedd wedi cael effaith negyddol ar ba mor ddiogel yr oeddent yn teimlo yn Nhŷ Sant Teilo.

Roedd yn amlwg o adolygu data digwyddiadau, ac o siarad â'r staff a'r cleifion, bod yr ysbyty wedi bod yn gythryblus yn yr wythnosau cyn ein harolygiad. Roedd y darparwr cofrestredig yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod cymysgedd sgiliau priodol o staff yn gweithio i reoli'r ysbyty ac ymddygiadau'r cleifion. Gweithiodd yr ysbyty gyda thimau gofal cleifion unigol i symud dau glaf i amgylcheddau mwy priodol a allai ddiwallu eu hanghenion unigol.

Roedd rheolwr yr ysbyty yn sefydlu sesiynau ôl-drafodaeth ar gyfer staff yn dilyn y digwyddiadau diweddar i ddarparu cymorth i'r staff. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r digwyddiadau diweddar a'u heffaith ar

ddiogelwch yr ysbyty, a nodi gwersi a ddysgwyd a pha gamau fydd yn cael eu cymryd i liniaru digwyddiadau tebyg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y difrod i ddau banel ffenestr drws a chornel wal yn yr ystafell fwyta wedi cael ei drwsio.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r digwyddiadau diweddar a'u heffaith ar ddiogelwch yr ysbyty, a nodi gwersi a ddysgwyd a pha gamau fydd yn cael eu cymryd i liniaru digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ penodol ar gyfer Tŷ Sant Teilo. Roedd yr ystafell ymolchi, y cawodydd a'r toiledau cymunedol yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod ac roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob ward/cegin a man ymolchi.

Gwelsom drwy gydol yr arolygiad fod yr ysbyty yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod. Roedd offer glanhau wedi eu storio a'u trefnu'n briodol.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn manau perthnasol yn yr ysbyty. Roedd gan y staff fynediad hefyd at gyfarpar diogelu personol atal a rheoli heintiau a dadheintio yn ôl y gofyn.

Roedd cyfleusterau golchi dillad a oedd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda, ystafelloedd golchi dillad a chypyrddau dillad golchi yn drefnus ar y ddwy ward.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty yn ymddangos yn lân ac yn hylan. Fodd bynnag, ar ail ddiwrnod yr arolygiad, nodwyd manau gennym yn y gegin therapi galwedigaethol yr oedd angen eu glanhau. Roedd y ddau bopty yn fudr ac roedd angen eu glanhau, ynghyd â'r hobiau coginio a'r ffaniau echdynnu. Roedd fent echdynnu allanol y gegin yn seimllyd iawn ac felly roedd llawer o lwch wedi glynu ato.

Roedd y tu mewn i oergell y cleifion yn fudr ac roedd hylif wedi casglu yn un o ddroriau'r oergell. Roedd golau tiwb fflworolau yn y gegin therapi galwedigaethol, ac roedd un gorchudd plastig ar goll ac roedd y llall yn fudr.

Hefyd, roedd bwyd wedi ei storio'n amhriodol yn y gegin therapi galwedigaethol. Roedd gweddillion o goginio ar un bowlen ffrwythau a'i chynnwys, ynghyd â charton o wyau heibio eu dyddiad terfyn. Nid oedd hylifau wedi eu hagog, siwgr, blawd ac eitemau eraill wedi eu storio'n gywir mewn cynwysyddion addas.

Roedd yn gadarnhaol nodi y cymerwyd camau yn ystod yr arolygiad i ddatrys y problemau hyn. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gegin therapi galwedigaethol yn cael ei chadw ar lefel briodol o lendid a bod eitemau bwyd yn cael eu storio'n briodol.

Archwiliwyd prif gegin yr ysbyty gennym a chanfuwyd safon uchel o lendid yn gyffredinol yn y brif gegin ac yng nghyntedd mynedfa drws cefn y brif gegin.

Roedd y dyfeisiau mewn cyflwr da ond roedd angen dadrewi'r rhewgell fawr. Roedd bocs o ffrwythau a llysiau heb ei orchuddio ar lawr y gegin yn hytrach nag ar silff. Roedd eitemau brecwast gwastraff hefyd wedi eu gadael heb eu gorchuddio ar silff waelod troli, a oedd wedi ei lleoli yng nghyntedd y fynedfa gefn. Gallai hyn fod wedi denu pryfaid neu fermin, yn enwedig gan fod y drws cefn ar agor ar y pryd.

Canfuwyd hefyd fod y drws i doiled a basn golchi dwylo'r gegin ar agor i gyntedd y drws cefn ar y pryd, ond rhoddwyd nodyn ar ddrws y toiled yn gyflym yn cyfarwyddo'r staff i sicrhau ei fod yn cael ei gadw ar gau bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod systemau ar waith ac yn cael eu cwblhau i gynnal glendid a gwaith cynnal y gegin therapi galwedigaethol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhewgell yr ysbyty yn cael ei monitro'n rheolaidd i atal rhew rhag casglu.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynnyrch yn cael ei storio'n gywir yn y ceginau.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw drws y toiled yn cael ei adael ar agor.

Maetheg

Cawsom sgwrs gyda staff y gegin ac edrychwyd ar fwydlenni'r cleifion gan ganfod fod cynllun bwydlen cytbwys wedi cael ei lunio. Hefyd, fe'n hysbyswyd bod prydau bwyd amgen ar gael mewn ymateb i ofynion diwylliannol ac anghenion meddygol unigolion.

Samplwyd detholiad o'r prydau a oedd ar gael i'r cleifion gennym a chanfuwyd eu bod o ansawdd da. Arsylwyd yr amseroedd bwyd yn yr ysbyty gennym hefyd, a chadarnhaodd y cleifion a'r staff fod y prydau bwyd a dderbyniwyd

ganddynt ac a samplwyd gennym ni yn nodweddiadol o'r hyn a ddarperir yn Nhŷ Sant Teilo.

Yn rhan o ofal adsefydlu'r cleifion, fe'u hanogwyd ac fe'u cynorthwywyd i goginio eu prydau eu hunain. Pan oedd gan gleifion awdurdodiad absenoldeb Adran 17, gallent hefyd fynd i siopa am fwyd yn rhan o'u gweithgareddau adsefydlu yn y gymuned.

Roedd cyfleusterau priodol ar gael i'r cleifion ar gyfer diodydd poeth ac oer a gwelsom gleifion yn defnyddio cyfleusterau cegin y cleifion trwy gydol yr arolygiad.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuwyd rheolaeth ddiogel o feddyginiaeth gennym yn yr ysbyty ar y cyfan. Roedd yr ystafell glinig wedi ei chloi ac roedd meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel. Roedd archwiliadau clinigol ar waith, gan gynnwys archwiliad fferylliaeth allanol rheolaidd, a oedd yn rhoi sicrwydd bod meddyginiaeth yn cael ei storio a'i defnyddio'n ddiogel.

Roedd yn amlwg bod y staff yn monitro tymheredd oergell y clinig i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir fel y dynodwyd gan y gweithgynhyrchydd. Rheolwyd tymheredd yr ystafell glinig gyda system aerdymheru i sicrhau ei bod yn cael ei chadw ar dymheredd priodol.

Adolygwyd sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) gennym. Roedd yr holl siartiau MAR a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf a'i statws cyfreithiol o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl; fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn cynnwys manylion eraill fel pwysau, taldra, ac ati. Roedd y siartiau wedi eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan ragnodwyd neu rhoddwyd meddyginiaeth neu'r rheswm yn cael ei gofnodi pan na roddwyd meddyginiaeth. Pan fydd cleifion yn gwrthod eu meddyginiaeth, nodir y rheswm pam yn nodiadau dyddiol y claf.

Roedd trefniadau da iawn ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir. Caiff y rhain eu harchwilio'n feunyddiol, er bod un diwrnod yn ystod y mis blaenorol pan nad oedd yr archwiliad wedi cael ei gynnal. Nodwyd gennym nad oedd y log cyffuriau a reolir bob amser yn cynnwys y dos, dim ond nifer y tabledi. Er gwaethaf hyn, roeddem yn gallu gwirio fod cyffuriau a reolir wedi cael eu cofnodi'n gywir.

Roedd archwiliad clinigol wythnosol ar waith i sicrhau bod yr holl offer brys yn bresennol rhag ofn bod eu hangen.

Roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer archebu meddyginiaeth. Roedd gan y staff fynediad at yr holl bolisïau rheoli meddyginiaeth perthnasol yn yr ysbyty ynghyd â'r Llyfr Fformiwlâu Prydain presennol.¹

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod clawr pob Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael ei gwblhau'n llawn.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dogfennau cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gywir.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn yr ysbyty ac archwiliad wythnosol o offer dadebru, a oedd yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn.

Roedd gan yr ysbyty nifer o dorwyr rhwymynnau, a oedd wedi'u lleoli drwy'r ysbyty cyfan rhag ofn y bydd achos brys.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff ar y ddwy ward yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

¹ Llyfr cyfeirio fferyllol yw Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain sy'n cynnwys ystod eang o wybodaeth a chyngor ar ragnodi a ffarmacoleg, ynghyd â ffeithiau a manylion penodol am feddyginiaethau unigol.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion naill ai'n cael eu cwblhau'n electronig, wedi eu diogelu gan gyfrinair, neu'n ffeiliau papur (gan gynnwys argraffiadau o ddogfennau electronig) a oedd yn cael eu storio a'u cynnal yn y swyddfa nyrsio a oedd wedi ei chloi. Gwelsom staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Fodd bynnag, roedd gan bob claf yn yr ysbyty sawl gwahanol ffolder o wybodaeth gofal. Gallai dilyn gofal a thriniaeth claf unigol fod yn gymhleth a chymryd amser ar draws y ffeiliau unigol felly. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn cyflwyno system cofnodion electronig yn fuan. Yr adborth gan leoliadau eraill yn y sefydliad yw bod y system cofnodion electronig wedi gwella hygyrchedd gwybodaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei broses rheoli cofnodion i'w gwneud yn haws i ddefnyddio dogfennau gofal.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pedwar o gleifion ar draws un ward yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod achosion o gadw wedi cael eu cymhwyso a'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf ac roedd copïau o bapurau cadw cyfreithiol a phapurau cyfreithiol ar gael yn ffeiliau'r cleifion.

Roedd tystysgrifau cydsyniad i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (siart MAR) cyfatebol. Roedd hyn yn golygu y gallai staff sy'n rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod y feddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsyniad i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Mae Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn mynychu Fforwm Gweinyddwyr Deddf Iechyd Meddwl Cymru Gyfan yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnig cyfle i gyfarfod ac ymgysylltu â Gweinyddwyr Deddf Iechyd Meddwl eraill ledled Cymru i drafod themâu, materion a phrofiadau cyffredin, gan fyfyrio ar arfer presennol i'w cynorthwyo i gadw'n gyfredol â newidiadau cyfredol i ddeddfwriaeth, cyfraith achosion ac arfer.

Roedd diffyg manylion yng nghofnodion y clinigydd cyfrifol ar gwblhau'r dogfennau statudol ar gyfer cydsyniad i driniaeth. Y cwbl yr oedd nodiadau'r cleifion yn nodi oedd y bu gostyngiad i'r dos presennol o feddyginiaeth.

Dylai'r darparwr cofrestredig hefyd wella'r broses o gofnodi trafodaethau ymgynghoreion statudol gyda'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn. Mae Cod Ymarfer 2016 y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru, paragraffau 25.56 - 25.62 yn cynnig canllawiau i ymgynghoreion statudol a byddai cofnodi eu trafodaethau yn helpu i gynnig tystiolaeth o'r arfer yn yr ysbyty.

Roedd gan y darparwr cofrestredig restr helaeth o bolisiau Deddf Iechyd Meddwl a oedd wedi eu harddangos ar hysbysfwrdd Deddf Iechyd Meddwl penodol ym mhrif goridor yr ysbyty. Roedd yr hysbysfwrdd hefyd yn dangos: cyflwyniad i'r Ddeddf Iechyd Meddwl, rhestr o Reolwyr Ysbytai Annibynnol, rhestr o gyfreithwyr sy'n arbenigo yn y Ddeddf, a thafleuni gwybodaeth am amrywiaeth o rannau o'r Ddeddf gan gynnwys: bod yn yr ysbyty fel claf a gedwir, bod yn yr ysbyty fel claf anffurfiol, a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod clinigwyr cyfrifol yn cwblhau cofnodion manwl o benderfyniadau yn ymwneud â darpariaethau cydsyniad i driniaeth.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r dogfennau sydd ar gael i ymgynghoreion statudol gofnodi eu trafodaethau gyda'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal cyfanswm o dri o gleifion.

Roedd tystiolaeth fod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion ac roedd aelodau o'r teulu yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cynllunio gofal pan fo'n briodol. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Er gwaethaf amrywiaeth eang o ddogfennau iechyd corfforol i fonitro ac adolygu iechyd corfforol cleifion, roedd ffeiliau'r cleifion yn cynnwys dogfennau iechyd corfforol anghyflawn neu wag. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dogfennau iechyd corfforol gofynnol yn cael eu cynnal yn ffeiliau'r cleifion ac yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn.

Pan oedd cleifion wedi gwrthod bod yn destun monitro iechyd corfforol, nid oedd cofnod o hyn yn y mwyafrif o achosion. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gwneud cofnodion manwl pan fydd cleifion yn gwrthod monitro corfforol neu driniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dogfennau iechyd corfforol gofynnol yn cael eu cynnal yn ffeiliau'r cleifion ac yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gwneud cofnodion manwl pan fydd cleifion yn gwrthod monitro corfforol neu driniaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan y tîm amlddisgyblaeth yn Nhŷ Sant Teilo. Roedd tîm staff ymroddedig yr oedd yn ymddangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Recriwtiwyd trwy broses agored a theg gydag archwiliadau cyflogaeth wrth recriwtio a thrwy gydol cyflogaeth. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig recriwtio i'r swyddi gwag nyrs gofrestrdig a Phennaeth Gofal.

Roedd y cyfraddau cwblhau hyfforddiant, goruchwyliaeth rheolwyr a gwerthusiadau blynyddol yn dda iawn. Mae angen gwelliannau i gefnogaeth gweithwyr cymorth gofal iechyd a'r ddarpariaeth o wybodaeth ar ôl digwyddiadau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Gwnaed hyn yn rhannol trwy raglen barhaus o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal cleifion.

Roedd gan uwch-reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw yn narpariaeth y gwasanaeth. Adroddwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr ysbyty i uwch-reolwyr y darparwr cofrestredig. Roedd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys data fel lefelau meddiannaeth cleifion, ystadegau gofal cleifion,

hysbysu am ddigwyddiadau, sefydliad staffio, absenoldebau staff, hyfforddiant staff a goruchwyliaeth.

Cadarnhaodd rheolwr cofrestredig ac unigolyn cyfrifol Tŷ Sant Teilo fod cysylltiadau agored ac adeiladol rhwng yr ysbyty a'r darparwr cofrestredig.

Roedd gweithio tîm amlddisgyblaeth cryf, gyda'r staff yn gwneud sylwadau ffafriol am ei gilydd ac yn nodi eu bod yn teimlo y gwrandewir ar eu safbwyntiau a'u bod yn cael eu parchu gan aelodau eraill o'r staff. Siaradodd disgyblaethau fel y seicolegydd, y therapyddion galwedigaethol a rheolwr yr ysbyty am gysylltiadau cymheiriaid a chefnogaeth dda gan ysbytai eraill o fewn eu sefydliad a chan eu rheolwyr. Gellid cyflawni hyn naill ai yn ystod cyfarfodydd rheolaidd neu o bell dros y ffôn neu drwy'r e-bost.

Canfuwyd gennym fod y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan nifer o weithwyr cymorth gofal iechyd am lefel yr ymddygiad ymosodol y gall rhai cleifion ei ddangos ar adegau. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, dywedodd y staff, o'u profiad o weithio yn yr ysbyty ers nifer o flynyddoedd, fod aciwtedd rhai cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf gan arwain at fwy o achosion o ymddygiad heriol. Cododd y staff bryderon nad yw'n ymddangos bod rhai cleifion a dderbynnir yn barod ar gyfer gwasanaeth adsefydlu, gan ddangos lefel uchel o ymddygiad ymosodol ac amharodrwydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau adsefydlu sydd ar gael.

Siaradodd rhai staff am deimlo eu bod ar wahân ar y ward ac roeddent yn teimlo bod ymddygiad ymosodol llafar a chorfforol tuag at y staff yn cael ei oddef gan y gwasanaeth. Roedd y staff yn teimlo bod diffyg adborth o ddigwyddiadau a'u bod felly'n teimlo'n ansicr am gamau y ceir eu cymryd o ran y rhai sy'n ymddwyn yn ymosodol yn gorfforol neu'n llafar.

Mynegodd rhai aelodau staff ddiddordeb mewn datblygu cod ymddygiad ar y cyd rhwng y staff a'r cleifion a fyddai'n cynnig cyfarwyddyd i'r cleifion a'r staff, ac roeddent yn teimlo y byddai hefyd yn cynnig cyfle i'r cleifion ddysgu a chefnogi sgiliau a fyddai'n cynorthwyo adsefydliad. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried y cynnig hwn gan y tîm staff.

Cadarnhaodd rheolwr yr ysbyty a'r seicolegydd eu bod yn gweithredu arfer myfyriol yn yr ysbyty ac y byddent yn cynnal sesiynau ôl-drafodaeth yn ymwneud yn benodol â digwyddiadau diweddar a oedd wedi ansefydlogi'r ysbyty yn sylweddol. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith i gynorthwyo'r holl staff gan gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Nhŷ Sant Teilo yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith i gynorthwyo'r holl staff gan gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Ymdrin â chwynion a rheoli digwyddiadau

Roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth am y prosesau hyn ar gael yn barod yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Nhŷ Sant Teilo ac yn gorfforaethol drwy'r data Dangosyddion Perfformiad Allweddol wythnosol. Roedd rheolwr yr ysbyty a'r unigolyn cyfrifol yn gallu cynnig enghreifftiau o pan ddefnyddiwyd data Dangosyddion Perfformiad Allweddol i gynorthwyo'r ysbyty, i ddarparu gwersi a ddysgwyd a newidiadau i bolisiâu'r sefydliad, naill ai o ddigwyddiadau yn Nhŷ Sant Teilo neu mewn ysbytai eraill o fewn y sefydliad.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd pryderon ynghylch yr adborth yn dilyn digwyddiadau i weithwyr cymorth. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau sefydledig ar waith i ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd, yn dilyn digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithio gyda Heddlu Gwent i ddatblygu protocol gweithio ar y cyd a fydd yn nodi pa gamau a disgwyliadau fydd gan yr ysbyty a'r heddlu lleol wrth ymdrin â'i gilydd, yn enwedig o ran ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Byddai hyn yn cynorthwyo staff yr ysbyty a'r heddlu i wybod pa gamau priodol i'w cymryd yn ôl y gofyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau sefydledig ar waith i ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r holl staff yn dilyn digwyddiadau yn yr ysbyty.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y sefydliad staffio gennym yn Nhŷ Sant Teilo a'r hyn a nodwyd ganddo yn ei Ddatganiad o Ddiben. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm amlddisgyblaeth wedi ei hen sefydlu ac yn cynnwys rheolwr yr ysbyty, y clinigydd cyfrifol, seicolegydd a dau therapydd galwedigaethol. Roedd tîm sefydledig o staff gweinyddol, cadw tŷ, cegin, a chynnal a chadw.

Fodd bynnag, roedd gan y darparwr cofrestredig ddwy swydd nyrs gofrestrdig wag a swydd Pennaeth Gofal wag, a oedd yn cael ei gwneud dros dro gan nyrs staff brofiadol o ysbyty arall. Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn ceisio llenwi'r swyddi gwag. Roedd gan yr ysbyty nifer llawn o weithwyr cymorth gofal iechyd parhaol a chymorth cronfa wrth gefn; prin iawn y defnyddiwyd staff asiantaeth yn Nhŷ Sant Teilo, a oedd yn cynorthwyo i ddarparu gofal cyson.

Adolygwyd yr ystadegau hyfforddiant gorfodol gennym ar gyfer staff yn Nhŷ Sant Teilo a chanfuwyd fod yr holl staff yn cydymffurfio 100%. Roedd y system electronig yn rhoi cofnodion staff unigol a manylion adrannol i weinyddwr yr ysbyty. Roedd y system yn atgoffa pan oedd yn amser darparu hyfforddiant diweddar fel y gellid hysbysu'r staff am y gofyniad i'w gyflawni.

Roedd staff yn yr ysbyty yn derbyn goruchwyliaeth fisol gan y rheolwyr a gwerthusiadau blynyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig recriwtio i'r swyddi nyrs gofrestrdig gwag a'r swydd Pennaeth Gofal wag.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Adolygwyd pum set o ffeiliau staff gennym ac esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn Nhŷ Sant Teilo.

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogi, roedd tystlythyrau staff yn cael eu derbyn, archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal, a chymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio.

Cwblhawyd archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ôl pob cyfnod o dair blynedd o gyflogaeth ac roedd cofrestrdig proffesiynol yn cael ei fonitro.

Roedd yn gadarnhaol nodi, yn ystod cyfnod pan oedd angen staff asiantaeth, bod rheolwr yr ysbyty wed cyfweld pob aelod o staff asiantaeth a darparu ymsefydliad iddynt i'r ysbyty a'i brosesau a gweithdrefnau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y staff asiantaeth yn teimlo bod hon yn fenter gadarnhaol a chefnogol a oedd yn gwneud i'r staff asiantaeth deimlo'n rhan o dîm yr ysbyty. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod y staff asiantaeth yn cael eu contractio am gyfnodau bloc er mwyn helpu i gynnal y parhad gofal yn Nhŷ Sant Teilo.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Pan fyddwn yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio a phryderon difrifol am ddiogelwch a llesiant cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu trwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a allai arwain at achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Yn cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Yn cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Yn bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cambian Healthcare Ltd

Ysbyty: Tŷ Sant Teilo

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mai – 2 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu ragweithiol yn yr ysbyty.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cynhelir clinig "menyw iach" bob wythnos yn Sant Teilo. Cynhelir trafodaeth a chyingor ynghylch ysmegu yn ei ystod. Os bydd angen rhagor o gyngor ar gleifion, cânt eu cynorthwyo i gael mynediad at gymorth rhoi'r gorau i ysmegu lleol yn eu meddygfa deulu lleol.	Lynne Ngaaseke (Rheolwr yr Ysbyty)	Ar unwaith ac yn barhaus
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu sut y gall y staff hebrwng cleifion heb allu eu hadnabod fel staff ysbyty er mwyn cynnal urddas y cleifion.	10. Urddas a pharch	Bydd y darparwr cofrestredig yn prynu crysau polo plaen i bob aelod o staff eu defnyddio wrth hebrwng cleifion yn y gymuned.	Lynne Ngaaseke	31/07/2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y difrod i ddau banel ffenestr drws a chornel wal yn yr ystafell fwyta wedi cael ei drwsio.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd	Mae'r darparwr cofrestredig yn cadarnhau bod difrod i ddau banel drws a chornel wal yn yr ystafell fwyta wedi cael ei drwsio.	Lynne Ngaaseke	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r digwyddiadau diweddar a'u heffaith ar ddiogelwch yr ysbyty, a nodi gwersi a ddysgwyd a pha gamau fydd yn cael eu cymryd i liniaru digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae'r darparwr cofrestredig wedi comisiynu sesiynau ôl-drafodaeth ar gyfer 28 Mehefin y mae'n ofynnol i'r holl staff fod yn bresennol ynddynt. Diben y sesiynau ôl-drafodaeth fydd galluogi'r staff fel tîm i rannu eu safbwyntiau ar y digwyddiadau diweddar, i ddysgu gwersi ac i gytuno ar brotocolau gweithio ar gyfer y dyfodol.	Lynne Ngaaseke	28/06/2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod systemau ar waith ac yn cael eu cwblhau i gynnal glendid a gwaith cynnal y gegin therapi galwedigaethol.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau y bydd aelod o'r adran therapi galwedigaethol yn cael ei neilltuo bob dydd i gwblhau archwiliad beunyddiol o'r gegin therapi, gan gynnwys gwirio tymheredd oergelloedd, glanhau arwynebau gwaith, gwirio offer miniog a	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gwirio droriau a'r oergell ar gyfer bwyd sydd heibio ei ddyddiad terfyn i'w daflu allan. Bydd y tîm therapi yn cymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol yn ôl yr angen.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhewgell yr ysbyty yn cael ei monitro'n rheolaidd i atal rhew rhag casglu.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Bydd y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod rhewgell yr ysbyty yn cael ei gwirio yn wythnosol i atal rhew rhag casglu.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynnyrch yn cael ei storio'n gywir yn y ceginau.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod cynnyrch yn cael ei storio'n briodol yn y ceginau.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw drws y toiled yn cael ei adael ar agor.	13 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Bydd y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod drws y toiled ar gau bob amser.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod clawr pob Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael ei gwblhau'n llawn.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau y bydd adolygiad wythnosol yn cael ei gynnal i sicrhau bod cloriau cardiaid meddygol yn cael eu cwblhau'n llawn.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dogfennau cyffuriau a reolir yn cael eu	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod archwiliad clinig wythnosol yn cael ei gwblhau, sy'n cynnwys unrhyw	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cwblhau'n gywir.		lofnodion sydd ar goll / diwygiadau neu newidiadau.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei broses rheoli cofnodion i'w gwneud yn haws i ddefnyddio dogfennau gofal.	20. Rheoli cofnodion	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod ffeil pob claf yn cynnwys mynegai i'w gwneud yn hawdd i'w defnyddio.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod clinigwyr cyfrifol yn cwblhau cofnodion manwl o benderfyniadau yn ymwneud â darpariaethau cydsyniad i driniaeth.	Y Ddeddf Iechyd Meddwl	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod y clinigydd cyfrifol yn cofnodi'n llawn yr holl benderfyniadau yn ymwneud â chydsyniad i driniaeth yng nghofnodion dyddiol y cleifion.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r dogfennau sydd ar gael i ymgynghori statudol gofnodi eu trafodaethau gyda'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.	Y Ddeddf Iechyd Meddwl	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod cofnodion o drafodaethau gyda'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn cael eu cwblhau ar ddiwrnod yr ymgynghoriad. Cedwir y dogfennau gofynnol yng nghwprdd ffeilio'r orsaf nyrsys i'w gwneud yn hawdd cael gafael arnynt.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	Mesur Iechyd Meddwl	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod clinig "menyw iach" wythnosol yn	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
y dogfennau iechyd corfforol gofynnol yn cael eu cynnal yn ffeiliau'r cleifion ac yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn.	(Cymru) 2010	cael ei gynnal. Yn ogystal â hyn, ceir dau arweinydd iechyd corfforol enwebedig a fydd yn cynnal archwiliadau wythnosol o ffeiliau iechyd corfforol yr holl gleifion.		yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gwneud cofnodion manwl pan fydd cleifion yn gwrthod monitro corfforol neu driniaeth.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod clinig "menyw iach" wythnosol yn cael ei gynnal. Bydd unrhyw wrthodiad i fynychu yn cael ei gofnodi ar y dogfennau iechyd corfforol ac yn nodiadau dyddiol y claf. Yn ogystal â hyn, ceir dau arweinydd iechyd corfforol enwebedig a fydd yn cynnal archwiliadau wythnosol o ffeiliau iechyd corfforol yr holl gleifion.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith i gynorthwyo'r holl staff gan gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd.	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod sesiynau ôl-drafodaeth yn dilyn digwyddiadau yn cael eu cynnal ar ôl pob digwyddiad.	Lynne Ngaaseke	Ar unwaith ac yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau sefydledig ar waith i ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r holl staff yn dilyn digwyddiadau yn yr ysbyty.	23 Ymdrin â chwynion a rheoli digwyddiadau	Bydd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod cyfarfod adolygu digwyddiadau bob pedair wythnos lle bydd pob digwyddiad yn cael ei adolygu a gwersi'n cael eu dysgu. Bydd yr holl staff yn derbyn gwahoddiad i fynychu.	Lynne Ngaaseke	31/07/2017 ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig recriwtio i'r swyddi nyrs gofrestrdig gwag a'r swydd Pennaeth Gofal wag.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Mae'r darparwr cofrestredig wedi recriwtio Pennaeth Gofal; bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cael ei hysbysu am ddyddiad cychwyn. Bydd y darparwr cofrestredig yn recriwtio i'r swyddi nyrs gofrestrdig gwag.	Lynne Ngaaseke	31/08/2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): LYNNE NGAASEKE

Swydd: RHEOLWR YR YSBYTY

Dyddiad: 22 MEHEFIN 2017